Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru
North Wales Choral Festival

Newyddion yr Ŵyl

Rhifyn 7 - Mehefin 2010

Cadarnhau beirniaid 2010!

Mae gan Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru feirniaid newydd sbon ar gyfer 2010

Yn ymuno â'r panel beirniadu mae Mervyn Cousins o Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Mark Grindall o'r British Association of Barbershop Singers (BABS) a Bernie Sherlock o'r Association of Irish Choirs (AOIC)

Mae Mervyn Cousins wedi mwynhau cyfnod fel Cyfarwyddwr Cerdd yng nghadeirlannau St Edmundsbury a Metropolitan, cyfnod fel Meistr Corawl yng Ngŵyl Bury St Edmunds a chyfnod fel Organydd ym Mhrifysgol Lerpwl. Dechreuodd weithio yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn 2003 ac yn ddiweddar cafodd ei benodi yn Brif Weithredwr yr Eisteddfod.

Mae Mark Grindall wedi mwynhau gyrfa amrywiol a nifer o uchafbwyntiau gan gynnwys ymddangos gyda phedwarawdau ledled Ewrop a'r Unol Daleithiau, gyda'r gynulleidfa fwyaf o 500miliwn ar gyfer noson agoriadol Disneyland Paris; enillodd fedalau aur ym Mhrydain ac Ewrop, a bu'n gadeirydd y BABS guild of judges.

Mae Bernie Sherlock yn uchel ei pharch yn y maes corawl yn Iwerddon, ac wedi cael nifer o lwyddiannau. Hi yw Cyfarwyddwr Cerdd Cymdeithas Gorawl Culwick yn ogystal ag arweinydd New Dublin Voices. Mae hi'n raddedig o NUI Maynooth ac wedi dysgu ar gyfer yr AOIC, ac yn 2008 cafodd ei phenodi yn Gyfarwyddwr Artistig yr ysgol haf flynyddol.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i gystadlu, neu i brynu tocynnau, ewch i'r wefan yn www.northwaleschoralfestival.co.uk

I gael sgwrs anffurfiol am y dydd, cysylltwch â threfnydd y digwyddiad, Alun Pritchard, ar 01492 575948 neu anfonwch e-bost at alun.pritchard@conwy.gov.uk

Eleni mae Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru yn dathlu 23 o flynyddoedd ac mae'r gystadleuaeth wedi datblygu dros amser yn ddigwyddiad uchel ei barch ar y calendr corawl. Rhwng 2007 a 2009 mae nifer y corau yn y gystadleuaeth wedi dyblu, ac mae'n parhau i dyfu, gan ei wneud yn un o wyliau mwyaf poblogaidd Cymru.

Daw corau o bob rhan o Brydain ac Iwerddon i Landudno i gystadlu dan y categorïau siop barbwr, ieuenctid, cymysg, merched a meibion. Mae'r gystadleuaeth yn cynnwys rownd ragbrofol yn ystod y dydd, ac ail berfformiad gyda'r nos gan enillwyr yr adran i gyhoeddi'r enillydd terfynol.

Bydd corau yn cystadlu yn y dydd am wobr o £100 ar gyfer y trydydd côr, £200 ar gyfer yr ail a £500 ar gyfer y côr buddugol. Yna bydd yr enillwyr yn cystadlu mewn cyngerdd i enillwyr gyda'r nos, i gael cyfle i ennill £500 arall, yn ogystal â thlws a'r teitl fel enillwyr cystadleuaeth 2010.

Gyda diolch i'n noddwyr:
Conwy County Borough Council
Stena Line Making good time
pianos cymru
St George's Hotel
design2print Everything from design to print.